



Llywodraeth EM



HM Government

**Pam mae'r Llywodraeth
o'r farn mai pleidleisio
dros aros yn yr Undeb
Ewropeaidd yw'r
penderfyniad gorau i'r D.U.**

**Y Refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd,
Dydd Iau 23 Mehefin 2016.**

**Why the Government
believes that voting to
remain in the European
Union is the best decision
for the UK.**

**The EU referendum,
Thursday, 23rd June 2016.**

Penderfyniad pwysig i'r Deyrnas Unedig

Bydd refferendwm yn cael ei gynnal ar 23 Mehefin. Dyma eich cyfle i benderfynu a fydd y Deyrnas Unedig (D.U.) yn parhau i fod yn yr Undeb Ewropeaidd (U.E.).

Mae'n benderfyniad mawr. Bydd yn effeithio arnoch chi, eich teulu a'ch plant am ddegawdau i ddod.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi sicrhau **statws arbennig** mewn U.E. diwygiedig:

- ni fyddwn yn ymuno â'r ewro
- byddwn yn parhau i reoli ein ffiniau ein hunain
- ni fydd y D.U. yn rhan o integreiddio gwleidyddol pellach yn Ewrop
- bydd cyfyngiadau newydd llym ar fynediad at ein system les ar gyfer mewnfudwyr newydd yr U.E.
- rydym wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth yr U.E.

Cred y Llywodraeth y dylai'r D.U. barhau i fod yn rhan o'r U.E.

Mae'r daflen hon yn nodi'r ffeithiau, ac yn esbonio pam mae'r Llywodraeth yn credu mai pleidlais dros aros yn yr U.E. yw'r peth gorau i bobl y D.U. Mae'n dangos rhai o'r dewisiadau y byddai'r D.U. yn eu hwynebu pe bai pleidlais dros adael yr Undeb.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Llywodraeth ar y refferendwm ar yr U.E. EUReferendum.gov.uk

An important decision for the UK

On Thursday, 23rd June there will be a referendum. It's your opportunity to decide if the UK remains in the European Union (EU).

It's a big decision. One that will affect you, your family and your children for decades to come.

The UK has secured a **special status** in a reformed EU:

- we will not join the euro
- we will keep our own border controls
- the UK will not be part of further European political integration
- there will be tough new restrictions on access to our welfare system for new EU migrants
- we have a commitment to reduce EU red tape

The Government believes the UK should remain in the EU.

This leaflet sets out the facts, and explains why the Government believes a vote to remain in the EU is in the best interests of the people of the UK. It shows some of the choices the UK would face if there were a vote to leave.

If you would like further information, please visit the Government's EU referendum website at EUReferendum.gov.uk



june
2016

mon 6 13 20 27

tues 7 14 21 28

weds 1 8 15 22 29

thurs 2 9 16 23 30

fri 3 10 17 24

sat 4 11 18 25

sun 5 12 19 26

Dyma eich cyfle *chi*
i benderfynu ar
eich dyfodol eich
hunan a dyfodol y
Deyrnas Unedig.
Mae'n bwysig eich
bod chi'n pleidleisio

This is *your* chance
to decide your
own future and
the future of the
United Kingdom.
It is important that
you vote

Economi gryfach

Yr U.E. yw partner masnachu mwyaf y D.U. o bell ffordd. Mae gwledydd yr U.E. yn prynu 44% o bopeth rydym yn ei werthu dramor, o geir i yswiriant. Mae aros yn yr U.E. yn gwarantu ein mynediad llawn at Farchnad Sengl yr Undeb. Ar y llaw arall, byddai gadael yn creu ansicrwydd a risg.

Mae gan Farchnad Sengl yr U.E. dros 500 miliwn o gwsmeriaid ac economi sydd bum gwaith yn fwy na'r D.U. Mae'r Farchnad Sengl yn ei gwneud yn haws ac yn rhatach i gwmnïau yn y DU werthu eu cynhyrchion y tu allan i'r D.U. gan greu swyddi yn sgil hynny.

Mae bod yn rhan o'r U.E. hefyd yn ei gwneud yn fwy deniadol i gwmnïau fuddsoddi yn y D.U. sy'n golygu rhagor o swyddi. Dros y degawd diwethaf, mae cwmnïau tramor wedi buddsoddi £540 biliwn yn y D.U. sy'n cyfateb i £148 miliwn bob dydd.

Diwydiant y D.U. a'r U.E.

Diwydiant	Swyddi	Cyfran o'r allforion i'r U.E.
Awyroffod	110,000	47%
Cemegolion a fferyllol	136,000	54%
Gwasanaethau ariannol	1,069,000	41%
Cynhyrchu bywyd	373,000	53%
TG a thelathrebu	1,364,000	46%
Trafnidiaeth	1,065,000	44%

A stronger economy

The EU is by far the UK's biggest trading partner. EU countries buy 44% of everything we sell abroad, from cars to insurance. Remaining inside the EU guarantees our full access to its Single Market. By contrast, leaving creates uncertainty and risk.

The EU's Single Market has over 500 million customers and an economy over five times bigger than the UK's. The Single Market makes it easier and cheaper for UK companies to sell their products outside the UK, creating jobs as a result.

Being inside the EU also makes it more attractive for companies to invest in the UK, meaning more jobs. Over the last decade, foreign companies have invested £540 billion in the UK, equivalent to £148 million every day.

UK industry and the EU

Industry	Jobs	Share of exports going to EU
Aerospace	110,000	47%
Chemicals and pharmaceuticals	136,000	54%
Financial services	1,069,000	41%
Food manufacturing	373,000	53%
IT and telecoms	1,364,000	46%
Transport	1,065,000	44%

Mae dros 3 miliwn o swyddi yn y D.U. yn gysylltiedig ag allforio i'r U.E.

Over 3 million UK jobs are linked to exports to the EU



Gwella ein bywydau

Cost byw

Pe bai'r D.U. yn pleidleisio dros adael yr U.E. byddai'r sioc economaidd a fyddai'n deillio o hynny'n rhoi pwysau ar werth y bunt, a byddai perygl y byddai prisiau uwch ar rai o nwyddau'r cartref ac y byddai safonau byw yn cael eu difrodi.

Byddai colli ein mynediad llawn at Farchnad Sengl yr U.E. yn gwneud allforio i Ewrop yn anoddach ac yn cynyddu costau.

Teithio dramor

Mae miliynau o ddinasyddion y D.U. yn teithio i Ewrop bob blwyddyn. Mae'r U.E. wedi gwneud hyn yn haws ac yn rhatach.

Mae diwygiadau i'r U.E. yn y 1990au wedi arwain at 40% a mwy o ostyngiad ym mhrisiau teithiau awyr cost is.

O'r flwyddyn nesaf, bydd costau defnyddio ffonau symudol dramor yn cael eu diddymu ar draws yr U.E. gan arbed hyd at 38c y funud ar alwadau i gwsmeriaid y D.U.

Mae aelodaeth o'r U.E. hefyd yn rhoi'r hawl i ddinasyddion y D.U. sy'n teithio mewn gwledydd eraill yn Ewrop gael mynediad at ofal iechyd cyhoeddus rhad ac am ddim neu ratach na'r gyfradd arferol.

Mae rhai'n dadlau mai ychydig fyddai'n newid pe baem yn gadael yr U.E. Ond nid oes sicrwydd y byddai cwsmeriaid y D.U. yn gallu dal gafael ar y buddiannau hyn pe baem yn gadael.

Improving our lives

Cost of living

If the UK voted to leave the EU, the resulting economic shock would put pressure on the value of the pound, which would risk higher prices of some household goods and damage living standards.

Losing our full access to the EU's Single Market would make exporting to Europe harder and increase costs.

Travel abroad

Millions of UK citizens travel to Europe each year. The EU has made this easier and cheaper.

EU reforms in the 1990s have resulted in a drop in fares of over 40% for lower cost flights.

From next year, mobile phone roaming charges will be abolished across the EU, saving UK customers up to 38p per minute on calls.

EU membership also gives UK citizens travelling in other European countries the right to access free or cheaper public healthcare.

Some argue little would change if we left the EU. But there are no guarantees UK customers would keep these benefits if we left.



Pe bai'r D.U. yn pleidleisio dros adael yr U.E. byddai perygl i'r sioc economaidd a fyddai'n dilyn arwain at brisiau nwyddau uwch

If the UK voted to leave the EU, the resulting economic shock would risk higher prices of some household goods

Beth fyddai gadael yr Undeb yn ei olygu?

Byddai pleidleisio dros adael yr U.E. yn creu blynyddoedd o ansicrwydd ac aflonyddwch economaidd posibl. Byddai hyn yn lleihau buddsoddiad ac yn arwain at golli swyddi.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y gallai olygu 10 mlynedd neu ragor o ansicrwydd wrth i'r D.U. ddadwneud ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd ac ail-drafod trefniadau newydd â'r U.E. a thros 50 o wledydd eraill ledled y byd.

Mae rhai'n dadlau y gallem daro bargaen dda yn gyflym gyda'r U.E. gan y byddai'r Undeb eisiau cadw mynediad at ein marchnad.

Ond byddai'n llawer anoddach na hynny ym marn y Llywodraeth – mae llai nag 8% o allforion yr U.E. yn dod i'r D.U. tra bod 44% o allforion y D.U. yn mynd i'r U.E.

Nid oes yr un wlad arall wedi llwyddo i sicrhau mynediad arwyddocaol at y Farchnad Sengl, heb orfod:

- **Dilyn rheolau'r U.E. nad oes modd iddyn nhw eu trafod mewn gwirionedd**
- **cyfrannu arian at yr U.E.**
- **rhoi'r hawl i ddinasyddion yr U.E. fyw a gweithio yn eu gwlad**

Byddai cytundeb masnach mwy cyfyngedig gyda'r U.E. yn rhoi llai o fynediad i'r D.U. at y Farchnad Sengl na'r hyn sydd gennym yn awr – gan gynnwys gwasanaethau, sy'n cyfrif am bron i 80% o economi'r D.U. Er enghraifft, bydd bargaen Canada â'r U.E. yn rhoi mynediad cyfyngedig at wasanaethau, ond bu'r gwaith at y gweill ers saith mlynedd erbyn hyn ac nid yw mewn grym o hyd.

What happens if we leave?

Voting to leave the EU would create years of uncertainty and potential economic disruption. This would reduce investment and cost jobs.

The Government judges it could result in 10 years or more of uncertainty as the UK unpicks our relationship with the EU and renegotiates new arrangements with the EU and over 50 other countries around the world.

Some argue that we could strike a good deal quickly with the EU because they want to keep access to our market.

But the Government's judgement is that it would be much harder than that – less than 8% of EU exports come to the UK while 44% of UK exports go to the EU.

No other country has managed to secure significant access to the Single Market, without having to:

- **follow EU rules over which they have no real say**
- **pay into the EU**
- **accept EU citizens living and working in their country**

A more limited trade deal with the EU would give the UK less access to the Single Market than we have now – including for services, which make up almost 80% of the UK economy. For example, Canada's deal with the EU will give limited access for services, it has so far been seven years in the making and is still not in force.

Gallai pleidlais dros
adael olygu degawd
neu ragor o ansicrwydd

A vote to leave could
mean a decade or more
of uncertainty



Rheoli mewnfudo a sicrhau ein ffiniau

Sicrhau ein ffiniau

Nid yw'r D.U. yn rhan o barth heb ffiniau'r U.E. – rydym yn rheoli ein ffiniau ein hunain, sy'n rhoi'r hawl i ni wirio pawb, gan gynnwys dinasyddion yr U.E., sy'n cyrraedd o gyfandir Ewrop.

Mewnfudo

Mae'r Llywodraeth wedi taro bargaen a fydd yn gwneud ein system fudd-daliadau yn llai atyniadol i ddinasyddion yr U.E. Yn y dyfodol, ni fydd gan fewnfudwyr o'r U.E. fynediad llawn at rai budd-daliadau nes byddan nhw wedi gweithio yma am hyd at bedair blynedd. Bydd gan y Llywodraeth ragor o bwerau i gymryd camau pan fydd ein system fewnfudo'n cael ei chamddefnyddio.

Mae rhai'n dadlau y byddai gadael yr U.E. yn rhoi rhagor o ryddid i ni gyfyngu ar fewnfudo. Ond yn gyfnewid am fanteision economaidd mynediad at Farchnad Sengl yr U.E., mae gwledydd y tu allan i'r Undeb – fel Norway – wedi gorfod derbyn hawl holl ddinasyddion yr U.E. i fyw a gweithio yn y wlad.

Gwella diogelwch

Mae aelodaeth o'r U.E. yn golygu y gall heddlu'r D.U. ddefnyddio cudd-wybodaeth gorfodi'r gyfraith o 27 o wledydd yr U.E. a chael mynediad at olion bysedd a gwybodaeth DNA.

Mae cydweithredu yn yr U.E. yn ei gwneud yn haws i gadw troseddwyd a therfysgwyr allan o'r D.U. Ers 2004, gan ddefnyddio'r Warrant Arestio Ewropeaidd, mae dros 1,000 o rai dan amheuaeth wedi wynebu cyfiawnder yn llysoedd y D.U. a thros 7,000 wedi cael eu hestraddodi.

Controlling immigration and securing our borders

Securing our borders

The UK is not part of the EU's border-free zone – we control our own borders which gives us the right to check everyone, including EU nationals, arriving from continental Europe.

Immigration


The Government has negotiated a deal that will make our benefits system less of a draw for EU citizens. In future, new EU migrants will not have full access to certain benefits until they have worked here for up to four years. The Government will have greater powers to take action where there is abuse of our immigration system.

Some argue that leaving the EU would give us more freedom to limit immigration. But in return for the economic benefits of access to the EU's Single Market, non-EU countries – such as Norway – have had to accept the right of all EU citizens to live and work in their country.

Keeping us safer

EU membership means UK police can use law enforcement intelligence from 27 EU countries, and will have access to fingerprint and DNA information.

EU cooperation makes it easier to keep criminals and terrorists out of the UK. Since 2004, using the European Arrest Warrant, over 1,000 suspects have faced justice in UK courts and over 7,000 have been extradited.



**Nid yw'r Deyrnas Unedig
yn rhan o barth heb
ffiniau'r Undeb. Ni sy'n
rheoli ein ffiniau**

**The UK is not part of the
European border-free
zone. We control our
own borders**

Buddiannau aelodaeth o'r U.E.

Mae'r U.E. yn grŵp o 28 o wledydd sy'n bodoli i hyrwyddo sicrwydd economaidd, heddwch a sefydlogrwydd, ac mae'r D.U. yn rhan o'r Undeb hwnnw. Mae'r U.E. yn gweithredu fel marchnad sengl masnach rydd, heb drethi rhwng ffiniau.

Mae'r D.U. wedi sicrhau **statws arbennig** yn yr U.E. Mae'r D.U. wedi cadw'r bunt, ni fydd yn ymuno â'r ewro ac mae'n parhau i reoli ffiniau'r D.U. Rydym wedi sicrhau na ellir trosglwyddo gymoedd y D.U. i'r U.E. yn y dyfodol heb refferendwm. Bydd y D.U. yn parhau i gael mynediad llawn at y Farchnad Sengl, gyda chyfle i ddweud ei dweud ar ei rheolau. Am bob £1 o dreth sy'n cael ei thalu, ychydig dros geiniog sy'n mynd i'r U.E. Ym marn y Llywodraeth, mae'r hyn y mae'r D.U. yn ei gael o ran cyfleoedd, creu swyddi a sicrwydd economaidd yn sgil aelodaeth o'r U.E. yn werth llawer mwy na'r gost.

Cyfleoedd i chi a'ch plant

Mae aelodaeth o'r U.E. yn golygu fod gennych chi a'ch teulu yr hawl i fyw, gweithio neu astudio dramor yn unrhyw un o'r 27 gwlad arall sy'n aelodau. Y mae hefyd yn gwarantu nifer o hawliau cyflogaeth.

Y Deyrnas Unedig fel un o rymoedd arweiniol y byd

Mae'r D.U. yn wlad gref ac annibynnol. Mae ein haelodaeth o'r U.E. yn cynyddu gallu'r D.U. i fynnu ei ffordd ei hun ar faterion sy'n bwysig i ni. Llwyddodd camau gan yr U.E. i atal Iran rhag cael arfau niwclear; ac mae'r U.E. yn arwain y byd ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

The benefits of EU membership

The UK is part of the EU, a group of 28 countries which exists to promote economic security, peace and stability. The EU operates as a single, free trading market, without taxes between borders.

The UK has secured a **special status** in the EU. The UK has kept the pound, will not join the euro and has kept control of UK borders. We have ensured that no UK powers can be transferred to the EU in the future without a referendum. The UK will keep full access to the Single Market, with a say on its rules. For every £1 paid in tax, a little over 1p goes to the EU. The Government judges that what the UK gets back in opportunities, job creation and economic security from EU membership far outweighs the cost.

Opportunities for you and your children

EU membership means you and your family have the right to live, work or study abroad in any of the 27 other member countries. It also guarantees many employment rights.

The UK as a leading force in the world

The UK is a strong, independent nation. Our EU membership magnifies the UK's ability to get its way on the issues we care about. EU action helped prevent Iran from obtaining nuclear weapons; and the EU is leading the world on tackling climate change.

A photograph of a family in a kitchen. In the foreground, a young woman with long dark hair, wearing a black and white patterned sweater, sits at a table. Across from her, an older woman with glasses and a brown shawl sits in a yellow chair, holding a white mug. In the background, a man in a light blue shirt and blue jeans stands holding a white mug and a blue and white checkered cloth. To his left, a woman in a light blue top and grey pants is at the kitchen counter, cutting fruit. The kitchen has light blue cabinets and a large window on the left. The scene is warmly lit, suggesting a comfortable and stable home environment.

**Daw aelodaeth o'r U.E. â
sicrwydd economaidd,
heddwch a sefydlogrwydd**

**EU membership brings
economic security, peace
and stability**

Penderfyniad unwaith mewn cenhedlaeth

Y refferendwm ddydd Iau 23 Mehefin yw eich cyfle i benderfynu a ddylem barhau i fod yn yr U.E. neu ei adael.

Cred y Llywodraeth mai aros yn yr U.E. yw'r penderfyniad gorau i'r D.U.

Dyma'r ffordd o ddiogelu swyddi, cynnig sicrwydd a chryfhau economi'r D.U. i bob teulu yn y wlad hon – llwybr clir tua'r dyfodol, yn wahanol i ansicrwydd gadael yr Undeb.

Chi sydd i benderfynu. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu ar eich penderfyniad.

Os byddwch chi'n 18 oed neu'n hŷn ar 23 Mehefin ac yn cael pleidleisio, dyma eich cyfle chi i benderfynu.

Mae'r broses gofrestru'n dod i ben ar 7 Mehefin. Cewch wybod sut mae cofrestru ar wefan Aboutmyvote.co.uk a gallwch gofrestru ar-lein ar Gov.uk/register-to-vote

Os hoffech ddod i wybod mwy am yr wybodaeth sydd yn y daflen hon, ewch i: EUReferendum.gov.uk

A once in a generation decision

The referendum on Thursday, 23rd June is your chance to decide if we should remain in or leave the European Union.

The Government believes it is in the best interests of the UK to remain in the EU.

This is the way to protect jobs, provide security, and strengthen the UK's economy for every family in this country – a clear path into the future, in contrast to the uncertainty of leaving.

This is your decision. The Government will implement what you decide.

If you're aged 18 or over by 23rd June and are entitled to vote, this is your chance to decide.

Registration ends on 7th June. Find out how to register at Aboutmyvote.co.uk and register online at Gov.uk/register-to-vote

If you would like to know more about any of the information in this leaflet, go to: EUReferendum.gov.uk



Mae'r refferendwm ar yr U.E. yn benderfyniad mawr i chi ac i ddyfodol eich teulu

The EU referendum is a big decision for you and your family's future



Llywodraeth EM

Cred y Llywodraeth mai pleidleisio dros aros yn yr Undeb Ewropeaidd yw'r penderfyniad gorau i'r D.U.

- Diogelu swyddi
- Economi gryfach
- Cynnig sicrwydd

Mae refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn benderfyniad unwaith mewn cenhedlaeth. Mae'r Llywodraeth yn credu y buasai'r budd mwyaf i chi a'ch teulu yn dod pe bai'r Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

Pleidleisiwch ddydd Iau 23 Mehefin.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Llywodraeth ar refferendwm yr Undeb Ewropeaidd: EUReferendum.gov.uk



HM Government

The Government believes that voting to remain in the European Union is the best decision for the UK.

- Protecting jobs
- A stronger economy
- Providing security

The EU referendum is a once in a generation decision. The Government believes it is in you and your family's best interests that the UK remains in the European Union.

Vote on Thursday, 23rd June 2016.

If you would like further information, please visit the Government's EU referendum website at EUReferendum.gov.uk